

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mercher, 10 Mehefin 2015

Amser y cyfarfod:
13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda

(271)v2

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

NDM5780 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynlluniau Ceidwadwyr Cymru i wella dealltwriaeth pobl sy'n talu'r dreth gyngor o sut y mae eu treth gyngor yn cael ei gwario.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorau i wella atebolrwydd o ran gwariant treth gyngor.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder mewn gwariant llywodraeth leol ledled Cymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod y dreth gyngor yn cynrychioli dim ond oddeutu 14 y cant o wariant cyngorau yng Nghymru.

Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system drethiant leol gyfiawn sy'n deg, yn fforddiadwy ac sy'n lleihau'r baich ar y rhai sy'n ei chael hi'n anoddaf i dalu.

4 Dadl Plaid Cymru (60 munud)

NDM5781 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad economaidd llawn gan fenywod.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu cyflwyno rhannu cyfnodau absenoldeb rhieni, sef penderfyniad a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015, a fydd yn cefnogi dynion i gymryd rôl fwy gweithredol o ran magu plant, ac yn cefnogi menywod i ddychwelyd i gyfranogiad economaidd llawn ar ôl rhoi genedigaeth.

Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn sicrhau bod menywod yn cael mynediad i gyflogaeth o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n hyblyg.

Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi manteision gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel o ran cefnogi menywod yn ôl i'r gweithle.

Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi galwadau i Gymru ddod yn genedl cyflog byw i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

NDM5779 Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu nad yw'r system bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yn addas at y diben ac nad yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ateb yr angen i archwilio'r system iechyd yng Nghymru yn annibynnol.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system sicrhau ansawdd mwy cadarn sy'n cynnwys:
 - a) cael gwared ar Arolygiaeth Iechyd Cymru a sefydlu arolygiaeth newydd sy'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru;
 - b) penodi prif arolygydd ar gyfer ysbytai a gofal iechyd;

c) cyflwyno arolygiadau a arweinir yn glinigol ac a adolygir gan gymheiriaid gyda mewnbwn sylweddol gan gleifion;

d) cefnogi staff a chleifion i ddefnyddio mecanweithiau ar gyfer chwythu'r chwiban drwy annog diwylliant cryfach o fod yn agored ac yn dryloyw; ac

e) diwygio'r drefn gwyno er mwyn sicrhau mwy o annibyniaeth ac adfer ymddiriedaeth cleifion a'u teuluoedd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

f) ystyried uno'r arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn.

Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu tryloywder yn y broses o arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd yng Nghymru drwy gomisiynu ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r GIG yng Nghymru.

6 Cyfnod pleidleisio

7 Dadl Fer (30 munud)

NDM5782 Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Gastroenteroleg – gwella ymwybyddiaeth a thriniaeth yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2015

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Mehefin 2015 i'w hateb ar 10 Mehefin 2015

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn addysg ôl-16? OAQ(4)0588(ESK)

2. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfranogiad mewn dysgu gydol oes? OAQ(4)0591(ESK)

3. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r niferoedd sy'n dysgu ieithoedd tramor modern? OAQ(4)0589(ESK)

4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad addysgol pobl ifanc mwyaf difreintiedig Cymru? OAQ(4)0584(ESK)

5. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o addysg gerdd yng Nghymru? OAQ(4)0580(ESK)

6. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran annog mwy o bobl i astudio pynciau STEM? OAQ(4)0594(ESK)

7. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch benthyciadau i astudio graddau ôl-radd? OAQ(4)0593(ESK)W

8. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i leihau nifer

y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru? OAQ(4)0592(ESK)

9. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0585(ESK)

10. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i sefydliadau addysg uwch? OAQ(4)0586(ESK)

11. Peter Black (Gorllewin De Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi athrawon i ddiogelu disgyblion mewn ysgolion? OAQ(4)0582(ESK)

12. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa fesurau newydd penodol sydd gan y Gweinidog yn eu lle i ddenu mwy o fyfyrwyr ymchwil lefel uwch i Gymru? OAQ(4)0587(ESK)W

13. Jeff Cuthbert (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o addysg ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dwys? OAQ(4)0590(ESK)R

14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i rôl ysgolion yng Nghymru wrth baratoi disgyblion ar gyfer gwaith? OAQ(4)0583(ESK)

15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer addysg yn Sir Benfro? OAQ(4)0578(ESK)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0569(EST)

- 2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen fanwl ar gyfer y penderfyniad terfynol ar weithrediad ffordd ymuno tua'r gorllewin cyffordd 41 yr M4 yn y dyfodol? OAQ(4)0581(EST)
- 3. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau bach sy'n cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd taliadau hwyr a wneir iddynt gan gwmnïau eraill? OAQ(4)0572(EST)
- 4. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu cynllun rhyddhad manwerthu Cymru? OAQ(4)0579(EST)
- 5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant manwerthu trwm a'i weithle yng Nghymru? OAQ(4)0580(EST)
- 6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rwydwaith ffyrdd gogledd Cymru? OAQ(4)0571(EST)
- 7. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu ein treftadaeth ddiwydiannol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0577(EST)W
- 8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith gweithredu adroddiad McNulty ar ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)0578(EST)
- 9. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i annog mwy o siopau bach a stondinau yng nghanol ein trefi a dinasoedd? OAQ(4)0567(EST)
- 10. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y bydd datblygu Metro De Cymru arfaethedig yn ei chael ar Gaerffili? OAQ(4)0576(EST)
- 11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant manwerthu yng Nghymru? OAQ(4)0575(EST)

12. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am annog pobl i ddefnyddio parc loriau newydd Caergybi?

OAQ(4)0570(EST)W

13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0566(EST)

14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd Rhanbarth Dinas Bae Abertawe? OAQ(4)0574(EST)

15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau arfaethedig yn SA1? OAQ(4)0573(EST)